



# Darganfod Safleoedd Treftadaeth y Byd Cynllun Gweithgareddau

## Amcanion Dysgu

- Darganfod beth yw Safle Treftadaeth y Byd.
- Deall pam fod Safleoedd Treftadaeth y Byd yn cael eu dewis, ble mae nhw a pha nodweddion arbennig sydd ganddynt.
- Deall beth sydd yn gwneud Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte yn Safle Treftadaeth y Byd, a sut mae'n cymharu â Safleoedd Treftadaeth y Byd eraill. Datblygu sgiliau allweddol gan gynnwys ymchwilio, siarad a gwrando a sgiliau digidol.

## Adnoddau

- Gêm PowerPoint Darganfod Safleoedd Treftadaeth y Byd
- Ffilm: 'From Dawn 'til Dusk' – Dathlu 10 mlynedd o Safle Treftadaeth y Byd ar Gamlas Llangollen
- Ffilm: Sut daeth Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte yn Safle Treftadaeth y Byd?
- Ffilm wedi'i hanimeiddio: Egluro Treftadaeth y Byd
- Cyfarwyddiadau, cardiau chwarae a thempledi ar gyfer Gêm Gardiau Safle Treftadaeth Y Byd
- Arweinwyr Teithiau Treftadaeth y Byd: Nodiadau, awgrymiadau gwyh arweinwyr teithiau a thafenni gwerthuso

## Gweithgareddau

1. Defnyddiwch y gêm PowerPoint Darganfod Safleoedd Treftadaeth y Byd fel man cychwyn i ddyfalu Safleoedd Treftadaeth y Byd ar draws y byd a thrafod pam fod y rhain wedi eu dewis.
2. Gwylwch y ffilmiau i ddeall mwy am Dreftadaeth y Byd a darganfod mwy am Ddyfrbont a Chamlas Pontcysyllte a pham ei fod wedi dod yn Safle Treftadaeth y Byd.
3. Chwaraewch gêm gardiau Safle Treftadaeth y Byd ac yna crëwch eich cardiau Safle Treftadaeth Y Byd eich hunain gan ddefnyddio'r templedi. Gofynnwch y cwestiynau: Pam fod y safleoedd yn arbennig? Ble mae nhw? Pa fath o Safle Treftadaeth Y Byd ydyn nhw?
4. Dod yn un o Arweinwyr Teithiau Treftadaeth y Byd: Darllenwch awgrymiadau gwyh ein arweinwyr teithiau yna defnyddiwch 'Mantle of the Expert' i greu cwmni arwain teithiau er mwyn dod yn arbenigwyr a chreu eich taith rithiol eich hun gan ddefnyddio Safle Treftadaeth y Byd o'ch dewis chi.



## Awgrymiadau

Defnyddiwch y bwndel hwn ar ddechrau neu ddiwedd prosiect yngl n â hanes Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte ar y cyd â bwndeli dysgu eraill yn y gyfres hon. Mae'r bwndel hwn yn ffordd dda i edrych ar Safle Treftadaeth y Byd Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte o ran safleoedd eraill neu i amlygu ei bwysigrwydd yn y byd heddiw cyn ymchwilio i'w hanes.

## Crynodeb

Mae Safleoedd Treftadaeth y Byd wedi eu dewis oherwydd eu pwysigrwydd diwylliannol a naturiol eithriadol. Maent yn rhychwantu miloedd o flynyddoedd o hanes ac yn amrywiol iawn o ran cymeriad, yn eu mysgr mae adeiladau, dinasoedd, cofadeiliau a thirluniau. Mae Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte wedi ei rhestru ochr yn ochr â rhai o safleoedd enwocaf y byd.

## Dolenni Cwricwlwm CA2

Lloegr:	Cymru:
• Hanes	• Dyniaethau
• Daeyryddiaeth	• Lleferydd a Chyfathrebu
• Saesneg	• Cymhwysedd Digidol
• Cyfrifiadura	• Celfyddydau Mynegiannol
• Celf a Dylunio	

## Gwefannau defnyddiol / adnoddau ychwanegol

- [Ffeil ffeithiau Camlas Llangollen](#)
- [Fideo drôn dros Dyfrbont Pontcysyllte](#)
- [Ffilm: Dyfrbont Pontcysyllte, Sefydliad y Peirianwyr Sifil](#)
- [Gwefan Treftadaeth y Byd UNESCO](#)